

**Arolygiad Urddas a Gofal
Hanfodol (Dirybudd)
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda –
Ysbyty Dyffryn Aman –
Cysgod y Cwm**

13 Awst 2014

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

Ffôn:	0300 062 8163
Ebost:	agic@wales.gsi.gov.uk
Ffacs:	0300 062 8387
Gwefan:	www.hiw.org.uk

Cynnwys

1. Cyflwyniad	2
2. Methodoleg	2
3. Cyd-destun	3
4. Crynodeb	4
5. Canfyddiadau	5
Ansawdd profiad y claf	5
Darparu hanfodion gofal	7
Ansawdd Rheoli Staff ac Arweinyddiaeth	15
Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol.....	17
6. Y Camau Nesaf	21
Atodiad A	22

1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) Arolygiad Urddas a Gofal Hanfodol dirybudd yn Ward Cysgod y Cwm, Ysbyty Dyffryn Aman, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar y 13eg o Awst 2014.

Mae ein harolygiad yn ystyried y materion canlynol :

- Ansawdd Profiad y Claf
- Cyflenwi Hanfodion Gofal
- Ansawdd Rheoli Staff ac Arweinyddiaeth
- Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol

2. Methodoleg

Mae Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol AGIC yn arolygu'r ffordd mae urddas cleifion yn cael ei gynnal mewn ward/uned/adran ysbyty a'r gofal nyrsio hanfodol, sylfaenol y mae'r cleifion yn ei dderbyn.

Rydym yn arolygu dogfennau a gwybodaeth wrth nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir hyd heddiw gan AGIC
- Sgyrsiau gyda chleifion, perthnasau a chyfweliadau gyda staff
- Trafodaethau gydag uwch reolwyr y Bwrdd Iechyd
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisiâu a gweithdrefnau sy'n sail i ofal cleifion
- Arsylwadau cyffredinol o amgylchedd y gofal a'r arferion gofal

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal y mae cleifion yn ei dderbyn. Gall yr arolygiadau hyn dynnu sylw at faterion ehangach ynglŷn ag ansawdd a diogelwch urddas a gofal hanfodol.

3. Cyd-destun

Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ym mis Hydref 2009 yn dilyn Rhaglen Diwygio'r GIG 2008-2009, a gyflwynodd ofal iechyd integredig i Gymru. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am iechyd a lles y boblogaeth ledled Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro; mae hefyd yn darparu amrywiol wasanaethau i drigolion de Gwynedd a Phowys. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwasanaethu chwarter ehangdir Cymru a phoblogaeth o ryw 375,061 o bobl.

Cyflenwir gwasanaethau gofal cymunedol ac eilaidd y Bwrdd Iechyd trwy'r canlynol :

- Pedwar ysbyty; Ysbyty Bronglais yn Aberystwyth, Ysbyty Glangwili yng Nghaerfyrddin, Ysbyty Tywysog Philip yn Llanelli ac Ysbyty Llwynhelyg yn Hwlfordd
- Wyth ysbyty cymunedol
- Un ar ddeg canolfan iechyd

Lleolir Ysbyty Cymunedol Dyffryn Aman yn ardal wledig Glanamau ar ffiniau tref Rhydaman. Mae yno un ward i gleifion mewnol (ward Cysgod y Cwm) ynghyd â nifer o glinigau cleifion allanol prysur.

Mae 28 o welyau yn ward Cysgod y Cwm – yn gyfuniad o welyau dan arweiniad ymgynghorwyr a meddygon teulu. Mae dwy ystafell unigol a ddefnyddir i ddarparu gofal lliniarol.

Ar hyn o bryd, yn sgil newidiadau i drefniadau meddygon teulu lleol, gwelyau dan arweinyddiaeth Ymgynghorwyr yw mwyafrif gwelyau'r ward. Roedd 26 o gleifion ar y ward ar ddiwrnod ein harolygiad.

4. Crynodeb

Yn gyffredinol, fe'n croesawyd gan dîm o staff cyfeillgar, hawdd siarad â hwy a

threfnus a oedd yn gwneud eu gorau bob tro i sicrhau bod profiad y claf mor gadarnhaol â phosib ar ward brysur. Roedd yr adborth gan gleifion a pherthnasau am y gofal a dderbyniwyd ar ward Cysgod y Cwm yn aruthrol o gefnogol.

Fel y nodwyd adeg yr arolygiad, gall cleifion deimlo'n hyderus bod y gwasanaeth wedi'i drefnu a'i redeg yn dda gydag ymroddiad i gynnal safonau gofal proffesiynol. Gwelsom dystiolaeth o staff yn rhannu gwybodaeth gyda chleifion am eu gofal mewn modd sensitif ac ystyrlon. Roedd staff yn ymorol yn ofalus am ofynion unigol y cleifion ac roedd safonau glendid yn uchel iawn.

Er bod y cleifion ar y ward yn dibynnu'n fawr ar y staff, roedd y staff yn cydweithio'n dda fel tîm, dan arweinyddiaeth Rheolwr Ward galluog. Nodwyd gennym na fyddai modd cynnal y safonau gofal da presennol hyn pe na bai sylw'n cael ei roi i'r sefyllfa staffio. Rydym hefyd yn cydnabod cyfraniad, ymroddiad a gwaith caled y Gynghrair Cyfeillion. Sylwom ar sawl enghraifft o arferion gwerth eu nodi :

- Yr amserlen lanhau
- Agweddau'r staff
- Cyfarfod rhwng Rheolwr Ward / staff a pherthnasau o fewn deuddydd i dderbyn claf
- Defnydd da o arwyddion preifatrwydd
- Defnydd da o'r ystafelloedd dydd a'r ystafell ar gyfer perthnasau
- Cyfnasau llithro unigol wrth droed pob gwely unigol

Er ein bod wedi nodi'r arferion da uchod, nodwyd bod nifer o feysydd y mae angen gwella arnynt o fewn y pedwar maes. Yn fras, mae angen gwella'r meysydd canlynol:

- Dogfennaeth
- Iechyd a Diogelwch
- Ystyriaethau maethiad

Ceir manylion am y meysydd y mae angen eu gwella a'n hargymhellion yn Atodiad A.

5. Canfyddiadau

Ansawdd profiad y claf

Yn ystod ein harolygiad rydym wedi gwneud un canfyddiad y bydd angen gwella arno yn y maes hwn. Ceir manylion ein gofyniad yn Atodiad A.

Yn gyffredinol gwelsom fod profiad y cleifion yn dda. Gwelsom fod y staff yn broffesiynol, cyfeillgar a pharchus yn eu hymarweddiad; ymgwymerwyd â'r holl agweddau ar ofal y cleifion mewn modd sensitif ac ystyrlon. Yn amlach na dim roedd yr amgylchedd yn ddigynnwrf, wedi'i drefnu'n dda, yn lân iawn heb unrhyw aroglau amhleserus. Roedd yno awyrgylch croesawgar, cynnes braf.

Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel wrth dderbyn gofal a bod eu hurddas a'u preifatrwydd yn cael eu parchu bob amser. Gwelsom staff yn ymateb yn brydlon i geisiadau am gymorth ac roeddynt yn barchus eu gwedd bob amser.

Dywedodd cleifion a pherthnasau wrthym eu bod yn derbyn gwybodaeth lawn am eu gofal a'u triniaethau. Dywedon nhw eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn siarad ag unrhyw aelod o'r staff, gan gynnwys Rheolwr y Ward, am unrhyw gwestiynau neu bryderon ynglŷn â'u gofal. Cafwyd cadarnhad ganddynt eu bod yn hapus iawn gyda phob agwedd ar eu gofal.

Trwy gydol ein harolygiad gwelsom y staff nyrsio, y Meddyg Teulu a'r Gweithiwr Cymdeithasol yn siarad gyda chleifion ac aelodau eraill tîm y ward mewn modd cwrtais a phroffesiynol. Talwyd pob sylw a gofal dyledus i natur gyfrinachol gwybodaeth a nodiadau gofal cleifion. Clywsom ddefnydd o'r Gymraeg gan gleifion a staff. Roedd y staff wedi gwisgo'n drwsiadus a phroffesiynol ac yn unol â Chod Gwisg Cymru Gyfan¹. Roedd eu hagweddau a'u parch tuag at y cleifion dan eu gofal yn arbennig o dda.

Nodwyd gennym fod setiau teledu a radio ac amrywiaeth o weithgareddau eraill ar gael at ddefnydd cleifion a oedd yn ymadfer. Roedd anogaeth i bobl gyfarfod a sgwrsio mewn dwy lolfâ gymunedol.

Roedd amgylchedd y ward yn eithriadol o lân a thaclus ac nid oedd arogleuon

¹ Datblygwyd Cod Gwisg Cymru Gyfan i gynnwys yr egwyddorion o ysbrydoli hyder, atal heintiadau ac er diogelwch y gweithlu.

cas. Roedd y dillad gwely yn ffres a glân. Roedd amserlen i sicrhau bod llenni'r ffenestri a llenni preifatrwydd yn cael eu golchi'n rheolaidd. Mae hyn yn enghraifft o arfer da gan ei fod yn cynnal a chadw amgylchedd glân ac yn gwella'r gwaith o reoli heintiau. Roedd adnoddau'r ystafelloedd ymolchi a'r toiledau yn lân iawn. Fodd bynnag, sylwom fod ardal ymolchi'r menywod yn cael ei defnyddio at ddibenion storio. Byddai rhoi cawodydd yn yr ardal hon yn well defnydd o'r gofod gan na fyddai'n rhaid i gleifion benywaidd basio toiledau'r dynion er mwyn cyrraedd y cawodydd. Yn sgil gweithgarwch a haelioni'r Gynghrais Cyfeillion, peintwyd coridorau'r ward yn ddiweddar.

Ar y cyfan, yn ystod ein harolygiad gwelsom wasanaeth a oedd wedi'i drefnu'n dda, yn gyfeillgar ac yn broffesiynol. Er bod y bwyd yn edrych yn flasus a maethlon roedd amser cinio braidd yn anhrefnus; gweinwyd bwyd heb holi am ddewisiadau'r cleifion, maint y prydau na'u lles cyffredinol. Ond gwelsom arferion da ar waith yn rhinwedd annog cleifion i eistedd i fwyta wrth fwrdd bwyd yn hytrach nag eistedd ar erchwynau eu gwelyau i fwyta. Mae hyn yn annog symudedd, cymdeithasu ac adferiad.

Argymhelliad

Mae angen symud yr offer sy'n cael ei storio yn ardal ymolchi'r menywod a gosod cawodydd yno.

Darparu Hanfodion Gofal

Yn ystod yr arolygiad, cafwyd saith canfyddiad lle mae angen gwelliannau yn y maes hwn. Manylir ein gofynion yn Atodiad A.

Cyfathrebu a Gwybodaeth

Rhaid i bobl dderbyn gwybodaeth lawn ynglŷn â'u gofal mewn iaith a dull sy'n sensitif i'w hanghenion.

Gwelsom fod staff yn cyfathrebu'n briodol gyda chleifion a pherthnasau yn eu dewis iaith yn ystod eu harhosiad ar y ward. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu parchu.

Roedd nodiadau'r cleifion yn cynnwys y wybodaeth bersonol briodol ac asesiadau mynediad o safon uchel. Fodd bynnag, nid oedd yr asesiadau risg cysylltiedig mor gyflawn a chynhwysfawr ymhob achos. Gwelsom fod y cynlluniau gofal yn rhai generig, heb fod yn canolbwyntio'n unswydd ar y claf a'u bod weithiau'n aneglur. Cadarnhawyd hynny wrth drafod gyda'r staff. Felly nid oedd tystiolaeth fod gofal unigol yn cael ei hyrwyddo. Roedd cofnodion yn nodi bod gofal wedi ei roi yn unol â'r cynllun, ond dim tystiolaeth o werthuso i sicrhau bod y gofal yn effeithiol. Cadarnhaodd staff eu bod gan amlaf yn ysgrifennu cofnodion ar ddiwedd shift yn hytrach nag ar y pryd.

Nodwyd bod dwy set o nodiadau nyrsio claf, un wrth y gwely ac un yn yr orsaf nyrsio. Roedd dogfennau gwahanol wedi'u ffeilio yn y naill set o nodiadau a'r llall. Roedd felly'n anodd mynd trwy un set o ddogfennau heb gyfeirio at y llall, gan wneud y system yn feichus a chreu perygl o gadw cofnodion gofal gwallus. Roedd hyn hefyd yn golygu nad oedd staff parhaol na staff banc yn derbyn cyfarwyddiadau clir ynghylch cynnig gofal a chymorth i bob claf yn unol â'u hanghenion, dymuniadau a'u dewisiadau. Rydym yn deall mai dogfennaeth newydd gan y Bwrdd Iechyd oedd hyn ac nad yw'r problemau yma'n benodol i'r ward hon yn unig. Serch hynny mae angen i'r ward sicrhau bod ei system yn gadarn ac yn glir i'w gweithredu. Nid oedd fformat y ddogfennaeth yn adlewyrchiad digonol a chywir o safon y gofal a welsom ni.

Gwelsom dystiolaeth o gyfathrebu effeithiol rhwng staff y ward ac asiantaethau proffesiynol eraill yn sgil atgyfeiriadau at nyrsys seiciatryddol cymunedol a nyrsys arbenigol eraill. Roedd dwy gynhadledd achos yn digwydd yn ystod ein hymweliad. Esboniodd Rheolwraig y Ward ei bod hi a Nyrs Staff yn cwrdd â theulu'r claf o fewn deuddydd i'w fynediad, i gadarnhau bod y wybodaeth gofnodedig yn gywir ac i weithredu menter 'Dyma Fi'² lle bo hynny'n

² Mae Dyma Fi yn fenter syml ac ymarferol y gall pobl â dementia ei defnyddio i roi gwybod i staff am eu hanghenion, eu dewisiadau, eu hoffbethau a'u casbethau a'u diddordebau.

berthnasol. Mae hyn yn dystiolaeth o arfer da.

Gwelsom fod y cynllun 'Pili Pala'³ yn cael ei ddefnyddio i ryw raddau ond nid oedd y ddogfennaeth gysylltiedig yn gyflawn yn nodiadau'r claf

Roedd gan y ward system ddolen i gynorthwyo cyfathrebu gyda chleifion â nam ar eu clyw. Prynwyd hwn gan y Gynghrair Cyfeillion. Roedd rhai o'r staff yn gallu cynnal sgwrs drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain a system gyfathrebu drwy rannu lluniau. Mae hyn yn esiampl o arfer da sy'n rhoi llais i gleifion am eu gofal.

Roedd y staff i gyd yn gwisgo bathodynau enw i helpu eraill i adnabod eu henwau a'u rôl yn unol â Gofynion Gwisg Cymru Gyfan. Roedd hyn yn helpu cleifion i deimlo'n ddiogel ac yn rhan o amgylchedd y ward.

Argymhellion

Mae angen archwilio nodiadau nyrsio'r cleifion er mwyn

sicrhau bod pob dogfennaeth yn gyflawn, yn gywir ac yn gymwys.

Mae angen i'r ddogfennaeth nodi anghenion nyrsio unigol, amlinellu ymyriadau

a gwerthuso effeithiolrwydd y driniaeth.

Mae angen format glir a hawdd ei defnyddio i alluogi hyn.

Parchu Pobl

Rhaid amddiffyn hawliau dynol sylfaenol i urddas, preifatrwydd a gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar wybodaeth, a rhaid i'r gofal a ddarperir gymryd anghenion, galluoedd a dymuniadau'r claf i ystyriaeth.

Gwelsom lawer o enghreifftiau o ymadwaith cyfeillgar ond parchus rhwng staff

³ Mae Cynllun Pili-Pala yn caniatáu i bobl sydd â dementia sydd wedi effeithio ar eu cof yn barhaol roi gwybod am hyn wrth staff yr ysbyty ac mae'n rhoi strategaeth syml, ymarferol i'r staff ar gyfer diwallu eu hanghenion.

a chleifion wrth i'r staff helpu gyda phob agwedd ar ofal. Hefyd, cawsom fod y gofal a roddwyd yn ystyrion o alluoedd a dymuniadau cleifion ac yn cynnal preifatrwydd ac urddas drwy gau drysau neu lenni cyn ymgymryd ag unrhyw ofal personol. Gwelsom ddefnydd arwyddion preifatrwydd ar y llenni o amgylch gwelyau a phosteri 'STOP' ar ddrysau i ddynodi bod claf yn derbyn gofal personol y tu hwnt i'r drws hwnnw. Dywedodd y staff bod cyfrinachedd yn cael ei sicrhau drwy drafod unrhyw faterion personol ar adegau tawelach, drwy siarad yn gynnil y tu ôl i lenni'r gwely neu drwy encilio i'r ystafell ar gyfer perthnasau.

Roedd arwyddion toiledau ac ystafelloedd ymolchi yn glir ond yn anaddas i gleifion â nam gwybyddol. Roedd holl gloeon y drysau hyn yn gweithio.

Hyrwyddo Annibyniaeth

Rhaid i'r gofal a ddarperir barchu dewisiadau'r person wrth wneud y mwyaf o'u gallu a'u dymuniad i ofalu amdanynt eu hunain.

Gwelsom rai cleifion yn cael eu cynorthwyo i fod mor gorfforol annibynnol â phosib ; gwelsom gleifion yn cael eu hannog i symud gyda chymhorthion cerdded priodol, gyda'r staff yn cynnig cefnogaeth foesol a chymorth corfforol.

Ychydig iawn o gleifion a welwyd gennym yn eistedd mewn gwely – mae hyn yn arfer da gan ei fod yn annog symudedd ac adferiad. Anogwyd y cleifion i eistedd mewn cadeiriau wrth erchwyn y gwely, yn yr ystafell fwyta neu yn yr heulfan lle roedd digon o olau ac awyr iach. Fodd bynnag, prin oedd y therapi galwedigaethol neu ffisiotherapi oedd ar gael. Nododd y staff y byddai'r cleifion yn elwa o gael ardal adsefydlu benodol.

Nid oedd tystiolaeth bod arwyddion priodol i gynorthwyo pobl ag anawsterau gwybyddol i ddefnyddio'r cyfleusterau personol yn annibynnol.

Argymhelliad

Rhaid i'r ward sicrhau bod arwyddion priodol i helpu cleifion sydd ag anawsterau gwybyddol i gynnal a chadw eu hannibyniaeth hyd orau y gallant.

Perthnasau

Rhaid annog pobl i gadw eu cysylltiadau gyda'u teuluoedd a'u cyfeillion a datblygu perthynas ag eraill yn unol â'u dymuniadau.

Gwelsom fod amserau ymweld penodol ar y ward, ond dywedodd y staff bod peth hyblygrwydd gyda hyn pan roedd angen, yn enwedig pan oedd cleifion yn ddifrifol wael.

Roedd ystafell wydr fawr lle gallai cleifion sgwrsio gyda pherthnasau ar wahân i amgylchedd y ward. Hefyd, roedd ystafell fach i ymwelwyr, gydag adnoddau gwneud paned i berthnasau neu ar gyfer arhosiad dros nos petai angen.

Dywedodd Rheolwraig y Ward bod gweinidog crefyddol yn ymweld yn wythnosol gan gynnig cefnogaeth ysbrydol i'r sawl sy'n dymuno hynny.

Roedd yma dystiolaeth o arfer da yn rhinwedd adnoddau'r ward a ddisgrifiwyd uchod ac ymarweddiad y staff o ran cefnogi ac annog cleifion i gynnal a datblygu perthnasau.

Gorffwys, Cysgu a Gweithgareddau

Rhoddir ystyriaeth i amgylchedd a chysur pobl er mwyn iddynt fedru gorffwys a chysgu.

Gwelsom fod digon o obenyddion a blancedi ar gael a gwelsom staff yn holi a oedd cleifion yn gyfforddus. Roedd cyflenwad digonol a threfn dda ar y cwpwrdd llieiniau. Cedwir y gwelyau yn dwt a thaclus.

Er bod hon yn ward brysur roedd yr awyrgylch yn ddigynnwrf a thawel ac yn gydnaws â gorffwyso. Gwelsom staff yn holi cleifion os dymunent ddychwelyd i'w gwely ar ôl cinio. Dywedodd staff wrthym fod mwyafrif y cleifion yn hoffi gorwedd ar y gwelyau ar ôl rownd 3pm y ward.

Hefyd dywedodd y staff fod amgylchedd y ward yn gynnes iawn yn ystod

nosweithiau'r haf gan fod yn rhaid cloi pob ffenestr am 8pm am resymau diogelwch.

Sicrhau Cysur a Lleddfu Poen

Rhaid helpu pobl i fod mor gyfforddus ac mor rhydd o boen ag y mae eu hamgylchiadau'n caniatáu.

Gwelsom dystiolaeth yn siartiau meddyginiaeth y cleifion a arolygwyd fod un claf, oedd ag angen lleddfu poen, yn derbyn analgesia priodol a bod yr effeithiau'n cael eu monitro. Serch hynny ni welsom ddefnydd o offer asesu poen.

Gwelsom weithwyr cymorth gofal iechyd yn symud dillad gwely a chlustogau ar gadeiriau i wella cysur claf, a dywedwyd wrthym os oedd cleifion yn cwyno am boen, fod y nyrsys staff yn cael eu hysbysu ar unwaith.

Dywedodd staff bod nyrs arbenigol mewn trin poen ar gael yn ôl y gofyn a bod gan Reolwr y Ward brofiad blaenorol gyda gofal lliniarol ac wedi derbyn hyfforddiant rheoli poen. Mae hyn yn fuddiol i'r cleifion gan y gellir trin unrhyw anghysur yn effeithiol ac effeithlon.

Argymhelliad

Mae angen darparu offer gwerthuso a rheoli poen

Hylendid Personol, Ymddangosiad a Gofal Traed

Rhaid cefnogi pobl i fod mor annibynnol â phosib o ran gofalu am eu hylendid personol, eu hymddangosiad a'u traed, a'u hannog i wisgo'u dillad nos a'u dillad dydd eu hunain.

Gwelsom staff yn rhoi cymorth a/neu anogaeth briodol i hybu hylendid personol da. Gwelwyd staff yn cerdded gyda chleifion i'r ystafell ymolchi ac yn ôl. Dywedodd cleifion bod dysglau'n cael eu dwyn at y gwely os oedd symudedd yn anodd.

Dywedodd cleifion eu bod yn cael eu hannog i wisgo'u dillad dydd ac roedd hyn i'w weld yn amlwg yn ystod yr arolygiad. Dywedodd un claf wrthym ei bod wedi

cael cymorth i ddefnyddio peiriant golchi'r ward i olchi ei dillad. Roedd pob un o'r cleifion a holwyd yn edrych yn lân ac ôl gofal arnynt.

Roedd yr adnoddau ymolchi ar gyfer menywod yn gyfyngedig. Y dewis iddynt oedd naill ai defnyddio'r bath neu'r cawodydd - roedd yn rhaid cerdded drwy ardal doiledau'r dynion i gyrraedd y cawodydd.

Bwyta ac Yfed

Rhaid cynnig dewis o fwyd a diod i bobl sy'n diwallu eu gofynion maethol a phersonol a sicrhau eu bod yn derbyn unrhyw gymorth sydd ei angen arnynt i fwyta ac yfed.

Roedd y ddogfennaeth faethiad yn anghyson ac er y gwelsom dystiolaeth o asesiadau maethol yn nodiadau'r cleifion, ni welwyd dystiolaeth o weithredu Llwybr Gofal Maethol Cymru Gyfan. Nid oedd y siartiau bwyd wedi'u llenwi'n briodol. Roedd cofnodion o bwysau cleifion adeg eu mynediad ac yn wythnosol wedi hynny. Hefyd roedd dystiolaeth o atgyfeirio at y Tîm Lleferydd ac Iaith. Mae dogfennaeth faethol glir a chywir yn bwysig yn enwedig o ystyried cyflwr bregus cleifion y ward.

Roedd arwyddon i ddynodi'r adegau pan roedd bwyd yn cael ei weini ar y ward ond roedd y rhain yn cael eu hanwybyddu; gwelsom feddyg teulu a gweithiwr cymdeithasol yn ymweld â chlaf yn ystod amser bwyd ac o ganlyniad gadawyd i'r bwyd oeri ar fwrdd gwely gerllaw.

Er bod gan y ward gydlynnydd maethiad nodwyd bod amser bwyd ar y ward yn brysur a braidd yn anhrefnus. Nid oedd cleifion yn barod i dderbyn bwyd - roedd rhai yn defnyddio'r toiledau, rhai wrthi'n cael eu tywys i'r ystafell fwyta ac nid oedd byrddau gwely cleifion eraill wedi eu clirio'n barod i dderbyn bwyd. Nid oedd cynnig i gleifion olchi'u dwylo cyn gweini'r bwyd. Pan dynnwyd sylw at hyn, rhoddwyd tywelion llaw unigol mewn pecynnau i'r cleifion. Roedd nifer o'r cleifion yn rhy fusgrell i agor y pecynnau; o ganlyniad fe'u cliriwyd i ffwrdd heb eu defnyddio. Hefyd gwelsom rhai cleifion yn cael eu gwisgo â ffedogau plastig gwyn i ddiogelu'u dillad heb fawr ofal o'u hurddas. Ychydig iawn o ymadweithio a welwyd rhwng staff a chleifion yn ystod gweini'r prydau bwyd.

Dywedwyd wrthym fod y ward wedi meithrin y system Hambwrdd Coch⁴, ond roeddynt yn defnyddio hambyrddau glas gan eu bod wedi ffeindio bod yn well gan gleifion â namau gwybyddol ddefnyddio'r rhain. Bwriad y system hon yw dynodi'r cleifion hynny sydd angen cymorth i fwyta ac yfed er mwyn cynnig help, ond heb dynnu sylw atynt. Nid oedd hyn yn digwydd yn briodol. Gwelsom fod pob claf wedi derbyn hambwrdd glas ac felly prin oedd y gefnogaeth a'r cymorth i gleifion gwan a bregus i fwyta'u bwyd. Esgeuluswyd rhai cleifion yn gyfan gwbl. Dywedodd y cleifion hynny a fedrodd fwyta'u pryd fod y bwyd yn dda iawn; dywedodd un ei fod fel "bwyd wedi'i goginio gartref". Ar ddiwrnod yr arolygiad roedd y pryd bwyd yn edrych yn flasus a maethlon er bod y dognau'n fawr a rhai platiau wedi'u gorlwytho. Ni welwyd tystiolaeth o staff yn holi cleifion am faint y dognau bwyd y dymunent.

O ran mewnbwn hylif y cleifion, roedd cofnodion y Siartiau Hylif Cymru Gyfan yn gyflawn a chymwys ac er y gwelsom gynnig diodydd i gleifion yn gyson ni welsom newid y jygiau dŵr deirgwaith y dydd fel sy'n ofynnol gan 'Hydradiad Ysbytai - Pecyn Adnoddau Arfer Gorau' (Coleg Nyrsio Brenhinol/Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion).

Cawsom drafodaeth gyda gweithiwr cymorth gofal am y cymorth sydd ei angen wrth gynnig dŵr i glaf sy'n cael trafferth wrth lyncu. Dywedwyd wrthym y cai llwy ei defnyddio mewn achos o'r fath; ond ar yr achlysur hwn roedd bicer ar y bwrdd. Wedi holi pellach canfuom nad oedd y gweithiwr cymorth gofal yn hollol sicr pa ddull y dylid ei ddefnyddio. Awgryma hyn fod angen mwy o hyfforddiant ar rai aelodau o'r staff am sut i gynnig cymorth i gleifion sy'n cael trafferth wrth lyncu.

Roedd cegin fechan ar y ward; roedd hon yn ddigonol at ddiben paratoi byrbrydau i'r cleifion pe bai angen.

Argymhellion

Mae angen archwilio'r ddogfennaeth maethiad.

Mae angen trefn a strwythur adeg gweini bwyd a sicrhau cynnig cymorth priodol yn brydlon.

⁴ Mae'r system Hambwrdd Coch yn helpu i leihau risgiau maeth mewn ysbytai trwy roi arwydd bod cleifion sy'n agored i niwed angen help a chymorth gan staff, neu nad ydynt yn bwyta'n dda.

Iechyd a Glendid Geneuol

Rhaid rhoi cymorth priodol, diffwdan a phrydlon pan fo angen gan roi ystyriaeth i unrhyw anghenion penodol a phreifatrwydd.

Er na welwyd y bwndel Iechyd a Hylendid Geneuol Cymru Gyfan ym mhob un o'r nodiadau, gwelwyd asesiadau geneuol mewn rhai. Ni welsom unrhyw faterion i achosi pryder mewn perthynas ag iechyd a hylendid geneuol.

Dywedwyd wrthym fod cyflenwad o frwshys a phast dannedd ar gael i'r rhai oedd eu hangen. Roedd yno hefyd gyflenwad o frwshys dannedd babanod – at ddefnydd penodol cleifion oedd ag anghenion gofal lliniarol. Mae hyn yn sicrhau y gellir glanhau ardal y geg yn dyner a'i ffreshau ac mae hyn, yn ei dro, o gymorth i fewnbwn maeth a hylif, a lleferydd, yn ogystal â hyrwyddo urddas a pharch

Anghenion Toiled

Rhaid rhoi cymorth priodol, diffwdan a phrydlon pan fo angen, gan roi ystyriaeth i unrhyw anghenion penodol a phreifatrwydd.

Gwelsom asesiadau hunanreolaeth o adeg mynediad cleifion a oedd yn sicrhau eu bod yn derbyn y cymorth priodol, ond ni welsom gyfeiriad at ba gymhorthion hunanreolaeth penodol na'r meintiau angenrheidiol i'w defnyddio. Ni welsom gofnod o unrhyw atgyfeiriadau at y nyrs hunanreolaeth arbenigol. Gall hyn olygu nad yw anghenion hunanreolaeth rhai cleifion yn derbyn y sylw priodol.

Roedd anogaeth a chefnogaeth i'r cleifion hynny a oedd yn gallu, i symud i'r toiledau. Cafodd cleifion oedd ag angen defnyddio comôd eu trin ag urddas a pharch – gofalwyd i sicrhau preifatrwydd iddynt bob tro. Roedd ardaloedd y toiledau yn lân iawn; roedd tywelion llaw papur a sebon hylif mewn cyflenwyr yn hylaw.

Atebwyd clychau galw yn brydlon ac ni chlywsom am unrhyw glaf yn mynd i bryderi yn sgil gorfod aros am gymorth.

Gwelsom fod cyflenwad digonol o gymorthion hunanreolaeth ar gael ac wedi'u cadw'n briodol.

Argymhellion

Dylid gwneud asesiadau hunanreolaeth pan fo cleifion yn cael mynediad ac atgyfeiriadau at gynghorydd hunanreolaeth lle bo'n briodol.

Rhwystro Briwiau Pwyso

Rhaid helpu pobl i ofalu am eu croen a gwneud pob ymdrech i'w hatal rhag datblygu briwiau pwyso.

Wrth gael ei dderbyn i'r ward, mae pob claf yn cael asesiad o gyflwr ei groen. Gwelsom dystiolaeth yn ffeiliau gofal y cleifion bod pecynnau rhwystro briwiau pwyso yn cael eu defnyddio i asesu a monitro unrhyw ddirywiad yn y croen. Pan roedd angen, rhoddwyd matresi a chlustogau lleddfu gwasgu i gleifion. Petai angen cyngor arnynt, dywedodd staff wrthym y gallent gysylltu â'r Nyrs Hyfywedd Meinwe am gyngor.

Ansawdd staffio, rheolaeth ac arweinyddiaeth

Yn ystod yr arolygiad hwn rydym wedi gwneud pedwar canfyddiad sy'n galw am welliannau yn y maes hwn. Manylir ein gofynion yn Atodiad A.

Ar hyn o bryd mae'r ward yn cyrraedd y safonau gofal nyrsio gofynnol er bo hynny'n digwydd gyda thîm o staff sydd yn llai nag yr argymhellir yng nghanllawiau ac egwyddorion gweithredu'r Prif Swyddog Nyrsio ynghylch lefelau staffio. Proffesiynoldeb llwyr ac ewyllys da'r staff ar bob lefel sy'n llwyr gyfrifol am hyn. Fodd bynnag, yn sgil dibyniaeth drom, gynyddol y cleifion a'r ystyriaethau staffio, ymddengys y bydd yn anodd cynnal a chadw'r safonau uchel hyn. Mae'r prif bryderon yn ymwneud â'r anghenion gofal craff sydd ei angen ar gleifion ynghyd â'r lleihad yn y niferoedd staffio. Cymhlethir y pryderon hyn yn sgil prinder yr amser wedi'i neilltuo i alluogi'r Rheolwr Ward i ymgymryd ag anghenion y rôl yn gymwys a chynhwysfawr.

Yn ôl egwyddorion gweithredu a chanllawiau Prif Swyddog Nyrsio Cymru ni ddylai fod gan unrhyw nyrs gofrestredig ofal am fwy na saith o gleifion yn ystod y dydd. Pan ymwelom ni, roedd y gyfradd staffio'n golygu bod un deg tri o gleifion dan ofal un nyrs gofrestredig. Hefyd, roedd yno bedwar gweithiwr gofal iechyd yn y bore a dau yn y prynhawn. Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo dan bwysau i frysio popeth ac nad oedd ganddynt ddigon o amser i gynnig gofal o ansawdd priodol. Nid yw hon yn sefyllfa dderbyniol nac yn un y gellir ei chynnal yn y dyfodol. Awgryma trafodaethau gyda Phrif Nyrs Glinigol yr Ysbytai Cymunedol bod hwn yn fater a danlinellwyd eisoes a bod blaengynllunio wedi cychwyn.

Roedd y Rheolwr Ward i'w gweld yn amlwg ac yn hawdd mynd ati, ac roedd Uwch Reolwr yn bresennol cyn i ni gyrraedd. Cadarnhaodd staff fod yr Uwch Reolwr yn bresenoldeb cyson ar y ward. Dywedwyd wrthym fod yma dîm o staff sefydlog a hir eu gwasanaeth.

Roedd strwythur atebolrwydd clir a phroffesiynol ar waith yma. Roedd gan bob nyrs gyfrifoldeb a gofal dros gleifion penodol ac roedd gweithwyr cymorth gofal yn gweithio dan gyfarwyddid y nyrs gofrestredig. Er nad oedd system o rowndio

bwriadol⁵ yn ei le, gwelsom weithwyr cymorth gofal yn cofnodi gweithredoedd yng nghofnodion erchwyn gwely'r cleifion.

Mae archwiliadau ward (sy'n helpu i sicrhau safonau gofal cleifion da) a gwerthusiadau staff (sy'n sicrhau arferion proffesiynol da) ill dau yn rhan o gyfrifoldebau Rheolwr y Ward. Roedd y rhain yn gyfredol er gwaethaf absenoldeb amser wedi'i neilltuo ar gyfer gwaith rheolaeth. Byddai'n fuddiol archwilio nodiadau gofal cleifion yn amlach, yn enwedig yr asesiadau risg a'r cynlluniau gofal. Bydd hyn yn anos i'w sicrhau yn yr hir dymor os nad yw'r Rheolwr Ward yn derbyn cymorth priodol. Fe'n sicrhawyd drachefn fod hyn ar y gweill.

Roedd ystod sgiliau staff y ward yn eang ac yn cynnwys meysydd megis fflebotomeg, trallwyso gwaed a gofal lliniarol. Roedd hyfforddiant digonol yn y meysydd gofynnol er bod dibyniaeth drom ar e-ddysgu. Dywedodd staff wrthym na chaent amser wedi'i neilltuo i gyflawni hyfforddiant nac ychwaith amser yn gyfnewid. O ganlyniad roeddynt yn cyflawni hyfforddiant yn eu hamser eu hunain.

Roedd gan y Rheolwr Ward ddealltwriaeth gadarn o'r system godi cwynion a dangosodd enghreifftiau o sut yr oeddynt wedi cyfathrebu gyda pherthnasau a oedd wedi mynegi pryderon. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw daflenni na chanllawiau ar sut i wneud cwyn neu nodi pryder. Ni fynegwyd unrhyw gwyn gan gleifion tra oeddem ni ar y ward.

Dywedodd y Rheolwr Ward wrthym fod staff yn cael eu hannog i fynychu'r cyfarfodydd ward misol pan oedd yn bosib eu cynnal. Roedd hyn yn sicrhau bod gwybodaeth yn tryledu'n briodol.

Yn sgil trafodaethau gyda staff, awgrymwyd nad oedd trefn gwarchodaeth na phorthor wedi 8pm. Mae hynny, ynghyd â lleoliad gwledig yr ysbyty, yn fater rheoli sydd angen ystyriaeth - o ran trefniadaeth ac adnoddau parcio ceir. Mae hon yn ystyriaeth i'r Bwrdd Iechyd fwrw golwg drosto.

⁵ Mae'r system rowndio bwriadol yn broses strwythurol lle mae nyrsys ar wardiau ysbytai cymunedol ac aciwt a staff cartrefi gofal yn cynnal gwiriadau rheolaidd gyda chleifion unigol ar gyfnodau penodol, bob awr fel arfer. Yn ystod y gwiriadau hyn, maent yn cyflawni tasgau gofynnol neu wedi'u trefnu.

Argymhellion

Mae angen sicrhau cymryd penderfyniadau strategol er mwyn mynd i'r afael â lefelau staffio.

Mae angen archwilio dogfennaeth yn gyson.

Dylid neilltuo amser penodol fel y gall staff dderbyn hyfforddiant.

Mae angen talu sylw i'r materion Gofal ac Iechyd sy'n deillio o sefyllfa maes parcio'r staff.

Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol

Rhaid bod yn weithredol wrth hyrwyddo a gwarchod iechyd, diogelwch a lles pobl. Rhaid adnabod risgiau, eu monitro a lle'n bosibl, eu lleihau neu eu hatal.

Yn ystod yr arolygiad hwn rydym wedi gwneud **saith** canfyddiad sy'n gofyn am welliannau yn y maes hwn. Manylir ein gofynion yn Atodiad A.

Yn gyffredinol, mae amgylchedd y ward yn lân a ffres ac ymddengys bod safonau glendid yn cael eu cynnal. Gwelsom enghreifftiau o arfer da a thrwyddo draw roedd darpariaeth y gwasanaeth yn ddiogel, effeithiol ac effeithlon. Fodd bynnag, mae angen sylw mewn rhai meysydd i sicrhau cynnal amgylchedd sy'n fwy diogel.

Diogelwch Cleifion

Gwelsom enghraifft o arfer da lle roedd gwybodaeth gyfrinachol am gleifion ar fwrdd gwyn ar wal swyddfa Rheolwr y Ward, ond roedd yno hefyd len rhoder y gallid ei dynnu i lawr a chuddio'r wybodaeth petai unrhyw un nad oedd yn aelod o'r staff yn digwydd dod i mewn i'r swyddfa.

Roedd manylion polisiâu a gweithdrefnau i'w cael ar y we ac roedd cyfrifiadur ar gael at ddefnydd pob aelod o'r staff os oedd angen arnynt. Roedd y rhaglen archwilio electronig ar y cyfrifiadur hefyd a rhoddwyd copi o'r archwiliad

diweddaraf i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Nodwyd gennym fod angen sylw ar fater yn ymwneud â monitro codymau. Gwnaed cofnod drwy system Datix am ddigwyddiad, ond nid oedd cofnod llwybr codymau cyfatebol yn nodiadau'r claf. Rhannwyd canlyniadau archwilio drwy gyfrwng arwyddion priodol - cadarnhawyd hyn gan y staff.

Gwelsom wresogydd trydan heb sgrin warchod yn un o'r ystafelloedd sengl. Tynnwyd sylw'r Bwrdd Iechyd at hyn ar 15fed Awst 2014. Derbyniwyd ymateb boddhaol ar y 26ain o Awst 2014. Ni fu damwain nac anffawd yn ystod cyfnod defnyddio'r gwresogydd.

Cododd rhai materion ynghylch rheolaeth heintiad pan welwyd aelod o'r staff anfeddygol nad oedd yn gwisgo menig gwarcheidiol na ffedog addas yn helpu claf a oedd yn derbyn gofal nyrsio rhwystrol. Wedi trafodaethau pellach canfuom nad oedd holl aelodau'r staff yn ymwybodol fod y claf dan sylw yn derbyn gofal nyrsio rhwystrol er bod arwyddion i'r perwyl hwnnw y tu allan i'r ystafell. Hefyd yn ystod amser cinio nodwyd nad oedd aelodau o'r staff domestig yn gwisgo ffedogau addas wrth weini bwyd.

Yn ystod amser cinio gwelsom fod y troli cynhesu bwyd wedi'i adael ynghanol y coridor gan greu anhawster i lywio ffordd drwy'r ardal honno, yn enwedig i gleifion eiddil â chynorthwyon cerdded.

Atebwyd clychau galw nyrsys yn brydlon a chadarnhaodd cleifion mai dyma oedd y drefn bob tro, hyd yn oed yn ystod y nos. Hefyd, gwelsom fod cynfas llithro⁶ wrth droed pob gwely unigol i helpu symud ac ail-leoli cleifion yn esmwyth a hwylus. Mae hyn yn enghraifft o arfer da.

Nodwyd gennym nad oedd swyddog diogelwch na gwasanaeth porthor ar ôl 8pm. Mae angen gweithredu ar hyn mewn perthynas ag ystyriaethau Iechyd a Diogelwch.

Argymhellion

Mae angen rhoi cynllun llwybr ar gyfer cwympiadau ar waith pan ganfyddir peryglon unigol

⁶ Defnyddir cynfasau llithro er mwyn symud a throsglwyddo.

***Mae angen cynlluniau rheoli haint llymach
Rhaid lleoli'r troli cadw bwyd yn gynnes mewn man mwy diogel ar y ward
Rhaid mynd i'r afael â materion diogelwch ar ôl 8pm***

Rheoli Meddyginiaeth

Gwelsom dystiolaeth fod cyffuriau wedi'u storio'n briodol ac roedd dau droli cyffuriau ar gael; y ddau ohonynt wedi'u bolltio wrth wal fewnol â bollt sylfaen. Roedd un yn rhydd am gyfnod byr, ond fe'i bolltiwyd yn ôl cyn gynted ag y tynnwyd sylw ato.

Gwelsom rowndiau meddyginiaeth yn digwydd mewn ffordd ddiogel, amserol ac effeithlon. Roedd defnydd y tabard coch 'peidiwch â thorri ar draws' yn effeithiol. Gwnaed defnydd o'r Siart Meddyginiaethau Cymru Gyfan⁷ a chofnodwyd unrhyw hepgorion. Dywedodd staff wrthym nad oedd unrhyw gleifion ganddynt ar hyn o bryd a oedd yn gallu hunan feddyginiaethu; dangosodd trafodaethau pellach nad oedd polisi hunan-feddyginiaethu gan y ward.

Gwnaed archwiliad o storfa'r cyffuriau rheoledig a chafwyd fod popeth yn briodol. Mae'r fferyllydd yn ymweld yn wythnosol er mwyn archwilio'r cyffuriau; gwelwyd tystiolaeth o hyn drwy'r gofrestr cyffuriau a'r siartiau meddyginiaeth unigol. Roedd y dŵr y tap poeth yn yr ystafell feddyginiaeth yn boeth iawn a dywedodd staff eu bod wedi tynnu sylw'r Adran Ystadau at hyn. Cadarnhawyd hyn eisoes mewn llythyr sicrhau di-oed a chymerwyd y camau priodol i unioni'r sefyllfa.

Nodwyd nad yw'r ward yn cynnig therapi ocsigen trwy bibell. Mewn perthynas â hyn nodwyd bod silindrau ocsigen yn cael eu storio mewn modd amhriodol y tu fewn a thu allan i'r adeilad. Cedwid silindrau yn y coridor heb unrhyw arwyddion i rybuddio staff o'r perygl posib. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn gwneud yr argymhellion canlynol : Dylid cadwyno neu glampio silindrau i'w hatal rhag disgyn drosodd. Pan nad ydynt yn cael eu defnyddio dylid eu cadw mewn ardal storio wedi'i hawyru'n dda, yn ddigon pell oddi wrth

⁷ Mae Siart Meddyginiaethau Cymru Gyfan yn siart safonol i weinyddu meddyginiaeth cleifion mewnol ac fe'i defnyddir ledled Cymru i hybu arferion rhagnodi diogel.

ddeunydd hylsg ac ar wahan i silindrau o nwy fflamadwy. Tynnwyd sylw at y mater hwn eisoes gan yr awdurdod tân.

Argymhelliad

Rhaid storio silindrau ocsigen mewn modd priodol

Rheoli Diabetes

Dywedodd staff wrthym fod nyrs gyswllt diabetes ar y ward. Hefyd, roedd taflenni gwybodaeth ar gael, a gwasanaethau diabetig arhosiad byr a chymunedol os nad oedd y nyrs gyswllt ar gael.

Roedd staff cymwys wedi derbyn hyfforddiant mewn gofal diabetes gan gynnwys menter 'ThinkGlucose'⁸; roedd gan y ward focs argyfwng sy'n cynnwys yr holl offer perthnasol i drin diabetes mewn argyfwng ac roedd staff o bob gradd yn gwybod ble i ddod o hyd iddo ar y troli adfywio. Dywedodd staff eu bod yn ansicr ynghylch prosesau DAFNE⁹ / DAFYDD¹⁰ ond y byddent yn cysylltu â'r Nyrs Glinigol Arbenigol petai angen cymorth arnynt. Nid yw hon yn sefyllfa benodol i'r ward hon yn unig ac mae'r Bwrdd Iechyd eisoes wedi dynodi bod hwn yn faes y mae angen ei wella.

Gwelwyd tystiolaeth ar ffurf dogfennaeth bod y mathau o ddiabetes yn cael eu cofnodi yn asesiad cyntaf y ward. Er ei bod yn anodd dilyn trywydd y ddogfennaeth, gan fod cofnodion yn cael eu cadw mewn dwy ffeil ar wahân, gwelsom dystiolaeth o adolygiadau meddygol a nyrsio priodol o gyflwr y claf. Er bod cynllun gofal ar gael, nid oedd tystiolaeth o unrhyw sgrinio traed, cynlluniau gofal traed nag ychwaith atgyfeiriad at feddyg traed - er bod traed y claf wedi chwyddo. Nodwyd na wnaed unrhyw gofnod yn y cynllun gofal pan gafodd y feddyginiaeth ei hadolygu a'i newid. Fodd bynnag roedd siart fwyd a oedd yn cofnodi maethiad ac roedd wedi'i chwblhau'n briodol.

⁸ Mae 'Think Glucose' yn fenter genedlaethol a redir gan Sefydliad y GIG ar gyfer Arloesi a Gwella. Ei nod yw gwella gofal diabetes cleifion gan gynnwys defnyddio'r tîm diabetes arbenigol ar gyfer cleifion mewnol.

⁹ Mae DAFNE (Dose Adjustment For Normal Eating) yn ffordd o reoli diabetes Math 1 ac yn rhoi'r sgiliau gofynnol i bobl amcangyfrif y carbhydradau ym mhob pryd bwyd a chwistrellu'r ddogyn gywir o inswlin.

¹⁰ Mae DAFYDD (Dose Adjustment For Your Daily Diet) yn rhaglen addysg ar gyfer pobl gyda diabetes Math 1.

Ni anogwyd cleifion i hunan feddyginiaethu na hunan reoli eu diabetes. Gwelsom fod meddyginiaethau'n cael eu storio a'u gweinyddu'n briodol. Er y cofnodwyd tymheredd yr oergell meddyginiaethau yn fisol, mae angen i hyn ddigwydd yn ddyddiol.

Mae angen i'r bwydlenni dyddiol fod yn gliriach o ran dynodi dewisiadau addas i ddiet diabetig a nodwyd na labelwyd bwyd yn ddigon eglur i ddangos ei fod yn addas ar gyfer diet diabetig.

Argymhellion

Mae angen gwirio tymheredd yr oergell meddyginiaethau yn ddyddiol

Mae angen dangos y dewisiadau diabetig yn gliriach ar y bwydlenni ac mae angen gallu adnabod bwydydd yn eglur ar y troli bwyd

6. Camau Nesaf

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno'r cynllun gwella gofynnol (Atodiad A) er mwyn mynd i'r afael â'r canfyddiadau allweddol a gofnodwyd yn yr arolygiad o Ward Cysgod y Cwm, Ysbyty Dyffryn Aman. Wedi gwerthuso'r cynllun gwella cyflawn daeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i'r casgliad bod y cynnwys yn cynnig sicrwydd digonol fod y bwrdd iechyd wedi gweithredu ar yr argymhellion a wnaed i wella'r gwasanaeth a/neu fod tystiolaeth i ddangos fod y bwrdd iechyd wedi cymryd camau priodol i ymateb i'r materion hyn.

Mae cynllun gwella'r bwrdd iechyd yn rhan o Atodiad A, sydd i'w gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ynghyd â'r adroddiad hwn.

Atodiad A

Urddas a Gofal Sylfaenol: Cynllun Gwella

Ysbyty: Dyffryn Aman

Ward/ Adran: Cysgod Y Cwm

Dyddiad yr arolygiad: 13 Awst 2014

Rhif Tudalen	Argymhelliad	Camau gan y Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Ansawdd Profiad y Claf			
6	Nodwyd fod pethau'n cael eu storio yn ardal ymolchi'r menywod. Byddai gosod cawodydd yn y gofod yma'n well defnydd ohono.	Trafod a chytuno gyda'r Adran Ystadau ar gynllun i ailwampio ardal ac ystafelloedd ymolchi'r menywod.	Prif Nyrs y Ward a'r Uwch Reolwr	Cwblhawyd o fewn 3 mis
	Cyflenwi Hanfodion Gofal			
8	Gwelsom fod "Cynllun Pili Pala" yn cael ei weithredu i ryw raddau ond nid oedd y ddogfennaeth berthnasol yn gyflawn yn nodiadau'r claf.	Diweddarau gwybodaeth y staff nyrsio yn fewnol gan Nyrs Dementia Arbenigol – i'w ddilyn gan ail archwiliad gan Uwch Nyrs i sicrhau gwelliant.	Prif Nyrs y Ward a'r Uwch Reolwr	1 mis
9	Doedd dim tystiolaeth o arwyddion	Bellach ar waith.	Prif Nyrs y Ward	Wedi'i

	priodol i helpu pobl â nam gwybyddol i ddefnyddio'r adnoddau gofal personol yn annibynnol.			gyflawni
7	Nodwyd gennym a chadarnhawyd gan staff fod y cynlluniau gofal yn rhai generig yn hytrach nag yn benodol ar gyfer cleifion unigol, ac roedd rhai'n aneglur. Felly doedd dim tystiolaeth o hyrwyddo gofal unigol. Roedd dogfennaeth yn dangos bod gofal wedi'i ddarparu'n unol â'r cynllun ond nid oedd wedi'i werthuso bob tro i sicrhau ei fod yn ofal effeithiol.	Roedd y Ward yn defnyddio dogfennaeth Nyrsio'r Rhanbarth Iechyd. Sicrhau bod gan y Ward bob cynllun gofal perthnasol a nyrsys wedi Cymhwyso i sicrhau bod cynlluniau gofal yn seiliedig ar anghenion penodol y claf. Caiff defnydd cynlluniau gofal generig ei adolygu fel rhan o'r cynllun cyfredol i werthuso'r system ddogfennaeth nyrsio a gyflwynwyd yn 2013 i safoni arferion ar draws y Bwrdd Iechyd.	Prif Nyrs y Ward ac Uwch Reolwr Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio (arfer)	1 mis O fewn pedwar mis
10	Ni welsom ddefnydd o offer gwerthuso a rheoli poen.	Bwriad i ddechrau defnyddio graddfa mesur poen 'Abbey' sydd eisoes wedi'i chymeradwyo, wedi cynllun prawf, gan y Bwrdd Iechyd - i'w defnyddio gyda chleifion â diagnosis o ddementia	Prif Nyrs y Ward a'r Uwch Reolwr	1 mis
11	Nid oedd y ddogfennaeth maethiad yn gyson ac er i ni weld tystiolaeth o asesïadau maethiad yn nodiadau'r cleifion ni welwyd defnydd o Lwybrau	Rhannu adborth canfyddiadau'r arolygiad wrth holl aelodau'r staff. Sicrhau gweithredu adolygiad mewnol ar gyfer holl staff y ward. Uwch Nyrs i	Prif Nyrs y Ward a'r Uwch Reolwr	6 wythnos

	Gofal Maethol Cymru Gyfan. Roedd y siartiau bwyd a welsom yn anghyflawn, heb wybodaeth briodol	archwilio'r ddogfennaeth wedi'r adolygiad i sicrhau gwelliant.		
11-12	Gwelsom fod amser bwyd ar y Ward yn brysur iawn a braidd yn anhrefnus. Nid fu paratoi digonol cyn gweini'r bwyd felly roedd rhai o'r cleifion yn defnyddio'r toiledau, eraill wrthi'n cael eu tywys i'r ystafell fwyta ac nid oedd y byrddau gwely wedi eu clirio'n barod dderbyn bwyd.	Staff i weithredu strwythur priodol i sicrhau bod trefn cyn gweini bwyd a sicrhau bod y cleifion yn barod i dderbyn eu prydau. Mae'r arfer o sicrhau nad oes dim byd arall yn digwydd ar y ward adeg gweini prydau bwyd wedi'i atgyfnerthu. Er, lle bo'n briodol fe anogir perthnasau i ymweld ar yr adegau hyn i helpu cleifion gyda'u prydau. Hefyd atgyfnerthwyd y defnydd o'r cynllun hambwrdd coch	Prif Nyrs y Ward	6 wythnos
13	Gwelsom asesiadau hunanreolaeth adeg mynediad a oedd yn sicrhau bod cleifion yn derbyn y cymorth priodol; ond ni welsom unrhyw gyfeiriad at yr asesiad o ran pa gymhorthion hunanreolaeth penodol y dylid eu defnyddio na'r meintiau priodol.	Paratoi rhaglen yn fewnol i gynyddu ymwybyddiaeth ynghylch ystyriaethau hunanreolaeth; Nyrs Hunanreolaeth Arbenigol i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf.	Prif Nyrs y Ward	6 wythnos
Ansawdd Rheoli Staff ac Arweinyddiaeth				
15	Yn ôl egwyddorion gweithredu a chanllawiau Prif Swyddog Nyrsio Cymru	Mae Uwch Reolwyr eisoes yn trafod adolygu trefniadau staffio wardiau. Mae	Uwch Reolwr, Rheolwr Nyrsys	3 mis

	ni ddylai fod gan nyrs gofrestredig ofal am fwy na saith o gleifion yn ystod y dydd. Adeg ein harolygiad roedd y gyfradd staffio'n golygu bod un deg tri o gleifion dan ofal un nyrs gofrestredig.	gweithredu trefn e-gylchrestrau staff yn gefn i hyn.	Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyfarwyddwr a Chomisiynydd Sir	
16	Byddai'n fuddiol archwilio nodiadau gofal cleifion yn amlach, yn enwedig yr asesiadau risg a'r cynlluniau gofal. Gall hyn fod yn anodd ei gynnal yn yr hirdymor os nad yw'r Rheolwr Ward yn derbyn cymorth.	Archwilir dogfennaeth yn fisol yn unol â'r Hanfodion Gofal. Bydd y Rheolwr Ward yn rhoi blaenoriaeth i hyn yn ystod ei hamser wedi ei neilltuo. Atgoffa staff o bwysigrwydd archwilio dogfennaeth yng nghyfarfod misol y ward. Mae offeryn archwilio dogfennaeth y Bwrdd Iechyd yn cael ei adolygu ar hyn o bryd i sicrhau ei fod nid yn unig yn ymgorffori arferion cadw cofnodion proffesiynol, ond hefyd yn cydymffurfio ag anghenion cyflawni a gwerthuso gofal	Prif Nyrs y Ward a'r Uwch Reolwr Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio (Arfer)	1 mis O fewn pedwar mis
16	Dywedodd staff nad oeddynt yn cael amser wedi ei neilltuo ar gyfer cyflawni hyfforddiant nag amser yn gyfnewid chwaith. O ganlyniad roedd staff yn	Darparu sesiynau hyfforddiant yn fewnol lle y bo'n bosibl. Prif Nyrs y Ward i drefnu rhaglen dreigl o sesiynau diweddarau gwybodaeth.	Prif Nyrs y Ward	6 wythnos

	cyflawni hyfforddiant yn eu hamser eu hunain.	Ymchwilio os oes modd i wella cyfleoedd i fanteisio ar fodiwlau e-ddysgu ac annog hynny ar gyfer staff cymunedol.	Uwch Reolwr Nyrsys	3 mis
	Nid oes swyddog diogelwch na phorthor ar ôl 8pm. Mae hyn, ynghyd â lleoliad gwledig y safle, yn fater Rheolaeth - mewn perthynas â diogelwch staff yn y nos ac yn gynnwys y bore wrth ddefnyddio'r maes parcio.	Mae'r Swyddog Diogelwch wedi adolygu sefyllfa'r maes parcio a'r ystyriaethau diogelwch sy'n deillio o hynny ac wedi awgrymu gwelliannau i'r drefn. Mae gwaith ymchwil parthed costau ac ariannu yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.	Uwch Reolwr	3 mis
Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol				
17	Cododd mater ynghylch monitro cwmpadau. Nid oedd cofnod o ddigwyddiad yn unol â gofynion y Cynllun Llwybrau ar gyfer cwmpadau yn nodiadau'r claf dan sylw er bod cofnod o'r digwyddiad gan y system Datix.	Sicrhau adborth i'r staff i gyd am ganfyddiadau'r archwiliad. Mae dogfennaeth yn destun parhaol ar agenda pob cyfarfod Ward. Uwch Nyrs i fonitro llwybrau cwmpadau wrth gadarnhau cofnodion Datix. Sicrhau nad oes annibendod yn y Ward. Bydd hyn yn rhan o raglen archwilio gyson.	Prif Nyrs y Ward a'r Uwch Reolwr	Ar unwaith
17	Cododd rhai materion ynghylch Rheoli Heintiau lle gwelwyd aelod staff nad oedd yn aelod meddygol ac nad oedd	Darparu sesiynau hyfforddiant a diweddarau gwybodaeth yn fewnol fel rhan o'r rhaglen dreigl ar gyfer holl	Prif Nyrs y Ward a'r Uwch Reolwr	Ar unwaith

	yn gwisgo'r menig priodol na ffedog addas yn helpu claf a oedd yn derbyn gofal nyrsio rhwystrol.	aelodau'r staff. Trafod hyfforddiant/ymwybyddiaeth staff anfeddygol gyda rheolwyr y Gwasanaethau Gwesty. Sicrhau bod arwyddion mwy amlwg ar gael.		
18	Yn ystod amser cinio gwelsom fod y troli cynhesu bwyd wedi ei adael ynghanol y coridor gan achosi anhawster i lywio ffordd drwy'r gofod hwnnw yn enwedig i gleifion eiddil gyda chynorthwyon cerdded.	Bellach gosodir y troli cynhesu bwyd yn yr ystafell fwyta sydd ynghanol y ward a gweinir bwyd i'r cleifion o'r fan honno.	Prif Nyrs y Ward a'r Uwch Reolwr	Wedi'i gyflawni
18	Nodwyd nad oedd swyddog diogelwch na phorthor ar ôl 8pm - gan ynysu cleifion a staff y Ward gan eu gadael yn anniogel.	Gweler uchod fanylion y camau a gymerwyd gan y Swyddog Diogelwch.	Uwch Reolwr	3 mis
19	Nodwyd nad yw'r ward yn darparu therapi ocsigen trwy bibell ac felly mae silindrau ocsigen yn cael eu storio mewn modd amhriodol y tu fewn a thu allan i'r adeilad.	Tynnwyd sylw'r Adran Ystadau at y pryderon; maent yn gwerthuso'r opsiynau	Prif Nyrs y ward a'r Uwch Reolwr	1 mis
20	Cofnodwyd tymheredd yr oergell lle cedwir meddyginiaeth yn fisol	Bellach caiff ei gofnodi'n ddyddiol	Prif Nyrs y Ward	Wedi'i gyflawni

20	Mae angen i'r bwydlenni dyddiol fod yn gliriach wrth ddangos y dewisiadau diet diabetig; ni labelwyd bwyd yn ddigon clir i ddynodi ei fod yn addas i ddiet diabetig.	Paratwir prydau ar y safle ac mae'r prif brydau i gyd yn addas i ddiet diabetig. Mae dewisiadau amgen o bwdinau ar gael. Tanlinellu'r angen i nyrsys gynnig dewis o faint y dognau bwyd a weinir, dewis amgen o bwdinau a chydweithio â'r Gwasanaethau Gwesty wrth ddarparu a gweini'r prydau bwyd.	Prif Nyrs y Ward	Ar unwaith

Cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd:

Enw (printio): Chris Haynes.....

Rôl: Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio.....

Llofnod: (llofnodwyd yn electronig).....

Dyddiad: 25/09/2014.....